Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Y 5 Colofn Gweithredu dros Natur!




## Cyngor Cymuned a Thref
## Canllaw Adfer Natur

# Pam mae natur yn bwysig

Mae llawer o ffyrdd syml ond effeithiol o gefnogi adferiad natur yn yr ardaloedd rydym ni'n gyfrifol amdanyn nhw. Mawr neu fach, trefol neu wledig - pa bynnag ardal sydd gennych chi, gallwch helpu byd natur i ffynnu!

## Mae natur yn siapio ein bywydau

Mae bioamrywiaeth yn allweddol i'n hiechyd, i'n llesiant ac i'n goroesiad. Rydym yn gwerthfawrogi bioamrywiaeth am yr hyn y mae'n ei ddarparu i ni, ac am y gwerth sydd iddo. Hebddo, ni fyddai gennym fwyd, tanwydd, lloches na meddyginiaeth. Mae ecosystemau iach yn darparu gwasanaethau hanfodol eraill hefyd fel peillio, gwasgaru hadau, dylanwadu ar yr hinsawdd, puro dŵr, y gylchred maethynnau, amddiffynfeydd rhag llifogydd naturiol a rheoli plâu amaethyddol.





## Ychwanegu gwerth at ein hardaloedd lleol

Bob dydd, mae preswylwyr yn siopa, teithio i'r gwaith, ymlacio neu fynd am dro yn eu hardal leol. Gall natur ychwanegu at eu diwrnod, gan leihau llygredd aer a sŵn, a darparu ardaloedd ar gyfer llonyddwch a harddwch.

## Ac i'n cymuned

Mae natur hefyd yn rhoi cyfleoedd i ni wirfoddoli, gwneud ymarfer corff, gwneud gweithgareddau hamdden a chael diwrnodau allan i'r teulu. Gall y rhain helpu pobl i gwrdd â'u cymdogion, cynyddu cydlyniant cymdeithasol a mynd i'r afael ag unigrwydd, a bod o fudd i'n hiechyd meddyliol a chorfforol.



# 1. Creu a gwarchod cynefinoedd!

Gwella eich ardaloedd gwyrdd! Mae'n arfer cyffredin i dorri glaswellt tir amwynder neu mewn mynwentydd yn aml i edrych yn ddeniadol, ond nid yw'n darparu llawer iawn o fwyd na lloches i fywyd gwyllt. Wrth dorri'r glaswellt yn llai aml, neu dorri ardaloedd gwahanol yn eu tro, rydych yn helpu blodau gwyllt neu berlysiau i dyfu a blodeuo mewn ardaloedd lle mae glaswellt fel arfer yn drech na nhw.



Gellir troi mynwentydd yn ddolydd a bwydo bywyd gwyllt.

Cafodd y cynefin gwerthfawr hwn ei greu drwy newid trefn torri glaswellt Cyngor Tref Llanelli.

## Gadewch y glaswellt am fwy o amser

Mae torri caeau neu dir amwynder arall yn hwyrach yn y tymor yn caniatáu i flodau hadu ac yn darparu cysgod i amrywiaeth o rywogaethau. Os nad yw'n ymarferol gadael i bob ardal dyfu drwy gydol y tymhorau, ystyriwch ble mae angen llwybrau neu ardaloedd wedi'u torri a gadael yr ymylon i dyfu'n wyllt. Gallwch gael y gorau o ddau fyd yn debyg i'r fynwent uchod.

Gofynnwch i gontractwyr newid gosodiadau peiriant torri glaswellt i adael y glaswellt ychydig yn hirach. Mae'r newid bach hwn yn caniatáu i flodau gwyllt dyfu. Plantlife - Mai Di-Dor

Ar ôl gorffen torri, cofiwch gael gwared â'r glaswellt sydd dros ben!

Pan fydd y rhain yn pydru, maen nhw'n rhyddhau maethynnau yn ôl i'r ddaear, sy'n cynyddu ffrwythlondeb y pridd. Mae hyn yn atal ein blodau gwyllt brodorol sy'n ffafrio priddoedd o ansawdd gwael.

Ymgyrch Iddyn Nhw: pecyn cymorth i randdeiliad | Llyw.Cymru

## Plannwch y goeden (iawn)!

Ac os oes gennych chi le...

Mae rhaglenni Coedwigoedd Bach, Ceiniogi'r Coed, a Y Goedwig Hir Drefol i gyd yn ffynonellau gwych o ysbrydoliaeth ac yn rhoi cyngor ar sut gallwch chi roi hwb i'n coed brodorol a'n gwrychoedd.

## Cadw coed

Mae pren marw, pentyrrau dail a boncyffion yn gynefinoedd pwysig i lawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn a ffyngau. Wrth i fonion a changhennau bydru, maent hefyd yn bwydo maethynnau gwerthfawr yn ôl i'r pridd.

Gofynnwch i gontractwyr adael pren marw yn y fan a'r lle er mwyn darparu cynefinoedd, neu gweithiwch gyda meddygon coed lleol i sefydlu cynefinoedd o foncyffion mewn parciau, mynwentydd ac ardaloedd gwyrdd eraill.

## Rhowch gynnig arni!

Mae pentyrrau cerrig a chreigiau yn creu cynefinoedd rhagorol i greaduriaid di-asgwrn-cefn ac amffibiaid. Mae hi'n bosibl y bydd ambell i famal bach yno hefyd!

Mae waliau cerrig sych hefyd yn darparu tyllau a chorneli i bryfed aeafgysgu a magu.

## Gwneud eich seilwaith yn fwy gwyrdd




Gall adeiladau cyhoeddus fel neuaddau cymunedol, adeiladau'r cyngor a hyd yn oed toiledau cyhoeddus a safleoedd bysiau ddarparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt hefyd. Gallech chi annog byd natur drwy wneud y canlynol:

Gosod to gwyrdd ar adeiladau toiledau lleol neu safleoedd bysiau:
Bioamrywiaeth a thoeau gwyrdd - gwasanaeth toeau gwyrdd ar waith (livingroofs.org)

Adeiladu gwestai chwilod gyda grwpiau ysgol neu gymunedol.
*Buglife* – Creu cynefinoedd i Wenyn a Chwilod

Gosod blychau adar ac ystlumod ar adeiladau neu ar goed – yn enwedig mewn ardaloedd lle mae mannau nythu naturiol yn brin.
RSPB – Y Canllaw Gorau ar gyfer Blychau Nythu.

Cofiwch blannu neu adeiladu ar wahanol uchder i ddenu a chysgodi amrywiaeth eang o ymwelwyr!

Beth am ddod yn gymuned Caru Gwenyn!
Cynllun Caru Gwenyn

# 2. Darparu porthiant

Mae natur wedi esblygu i ddarparu bwyd i fywyd gwyllt drwy gydol y tymhorau. Mae bod yn rhy daclus, tynnu pennau hadau neu ffrwythau sydd wedi syrthio, neu fod yn rhy frwdfrydig weithiau gyda'n gwaith torri yn gallu amddifadu bywyd gwyllt o fwyd yn ogystal â lloches.



Lleihau'r daith!

Gall plannu gwahanol fathau o blanhigion gyda'i gilydd hefyd arbed pryfed rhag gorfod teithio'n rhy bell rhwng prydau bwyd.

**Byddwch yn frodorol**

Plannwch lwyni brodorol gydag aeron neu ffrwythau i fwydo pryfed, adar a mamaliaid. Gall hyn hefyd ddarparu bwyd am ddim i'r gymuned!

Mae plannu llwyni ffrwythau mewn gwelyau yn agos at gyfleusterau eraill yn ffordd wych o wneud hyn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn labelu'r planhigion yn dda ac yn rhoi gwybod i'r gymuned y gallan nhw helpu eu hunain.

**Peidiwch â gwastraffu**

Gadewch i wastraff gardd a dail sydd wedi syrthio ddadelfennu'n naturiol gan fwydo'r pridd yn ogystal â chreaduriaid di-asgwrn-cefn a phryfed di-ri sydd, yn eu tro, yn darparu bwyd i adar ac ystlumod. Gellir ei roi o dan lwyni neu ei gasglu mewn cornel os yw'n edrych yn rhy hyll.

**Dyma'r tymor**

Darparu 'calendr bwyd' drwy blannu rhywogaethau sy'n blodeuo neu'n dwyn ffrwyth ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Ffrindiau'r Ddaear – Planhigion sy'n denu gwenyn ar gyfer pob tymor

Stopiwch ddefnyddio gwenwyn lladd malwod!



Stopiwch ddefnyddio plaladdwyr fel gwenwyn lladd malwod mewn ardaloedd cyhoeddus a gofynnwch i'ch cymuned ystyried hyn hefyd.

Mae gwenwyn lladd malwod yn wenwynig i lawer o rywogaethau ac maent yn amddifadu'r anifeiliaid a fyddai fel arfer yn bwyta'r rhywogaethau y mae ffynhonnell fwyd yn effeithio arnynt.

# 3. Darparu dŵr

Mae hanner miliwn o byllau wedi cael eu colli o'r DU yn ôl Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Gallwn helpu i gael rhai eraill! Gall hyd yn oed pyllau bach gynnal toreth o fywyd gwyllt, a gallant ddarparu 'cerrig camu' hanfodol i byllau eraill, nentydd neu ddyfrffyrdd eraill ar gyfer rhywogaethau dŵr croyw.

Drwy gynnal asesiad o'ch ardaloedd gwyrdd mawr gydag ecolegydd lleol, gallwch weld ble mae dŵr yn casglu'n naturiol a ble gallwch ddod o hyd i bwll neu rwydwaith o byllau gyda gwaith tirweddu a phlannu priodol. Os nad yw hyn yn bosibl, gallwch greu pwll wedi'i godi, a fydd yn galluogi'r gymuned i weld bywyd gwyllt y dŵr.  Gall pyllau dros dro leihau'r dŵr sy'n eistedd ar arwynebau a llwybrau tra'n creu cynefin ar yr un pryd.



Bydd pryfed, amffibiaid a chreaduriaid di-asgwrn-cefn i gyd yn elwa o'r pwll hwn, y gwlyptiroedd a'r cynefinoedd pryfed a grewyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

---

**Yfwch!**

Mae angen i ni i gyd yfed dŵr, hyd yn oed adar ac anifeiliaid eraill!

Ffordd wych o wneud hyn yw drwy ychwanegu bath adar neu bwll bach gyda phen bas neu ar oleddf i famaliaid bach allu dianc yn ddiogel.

Meddyliwch sut gallwch chi gynnwys mannau dyfrio bach yn eich ardaloedd cyhoeddus.

Gall hyn fod yn weithgaredd gwych i'w wneud gyda'r ysgol neu'r gymuned leol ac yn ganolbwynt i breswylwyr fwynhau eistedd ar fainc gyfagos.

[Dewch at y dŵr (rspb.org.uk)](rspb.org.uk)



Oeddech chi'n gwybod y gall nythfa wenyn yfed hyd at ddau beint o ddŵr i oeri ar ddiwrnod poeth, a gwanhau mêl i fwydo larfâu?

## Nodwedd ddŵr

Gall cynwysyddion bas yn llawn cerrig ddarparu dŵr i wenyn a pheillwyr eraill.

## Ar draws y pwll

Mae cynwysyddion neu byllau naturiol yn gynefin i llyffantod a madfallod dŵr ac yn darparu ardal i bryfed fel gweision y neidr ddodwy wyau.

Gwnewch yn siŵr bod sleidiau neu rampiau ar oleddf ar gyfer unrhyw greaduriaid sy'n syrthio i mewn, er mwyn iddynt allu mynd allan eto! Gall pyllau mwy o faint hefyd gynnal adar gwlyptir sy'n byw neu'n mudo.

Mae ffosydd, pyllau bas (sy'n ddŵr dros dro) a gwelyau cyrs hefyd yn gynefinoedd gwlyptir pwysig.

# 4. Creu cysylltiadau

Ni all natur ffynnu ar ei ben ei hun. Er mwyn creu ecosystemau gwydn gyda llawer o fywyd gwyllt, mae'n hanfodol cysylltu cynefinoedd drwy goridorau bywyd gwyllt, gorsafoedd bwydo a "cherrig camu".



Mae seilwaith gwyrdd fel y ffens werdd hon yn helpu i gysylltu cynefinoedd mewn ardaloedd trefol

---

**Dot i ddot**

Gallwch helpu i uno ein hardaloedd gwyllt drwy greu 'coridorau bywyd gwyllt' a gorsafoedd bwydo.

Beth am edrych ar fap o'r awyr o'ch ardal i weld lle mae'r cynefinoedd, a meddwl sut gallwch chi gysylltu'r dotiau?

Ystyriwch blannu gwrychoedd i gysylltu cynefinoedd neu greu cynefinoedd cerrig camu bach yn eich parciau a'ch ardaloedd gwyrdd. Gallech hyd yn oed wneud hyn fel ymgynghoriad cymunedol neu fel gweithgaredd ysgol.

---

**Llwybrau i ddraenogod a chnofilod**

Edrychwch ar y ffensys yn eich parc! Ydy hi'n bosibl i famaliaid bach fynd drwyddynt?

Gwnewch yn siŵr bod bylchau neu ddigon o le ar waelod ffens er mwyn i ddraenogod a mamaliaid bach eraill allu crwydro'n hawdd drwy eich ardal i ddod o hyd i fwyd a chymar. Gofynnwch i'ch cymuned adael bylchau mewn ffensys hefyd i greu ffyrdd i ddraenogod ym mhob man.

Hafan - *Hedgehog Street*



Gwnewch y gorau o gynefinoedd a mannau gwyllt sydd eisoes yn bodoli.

## Gwaith cynnal a chadw da

Beth am wella mannau sy'n bodoli eisoes drwy reoli cynefinoedd yn effeithiol. Gwnewch yn siŵr bod yr hyn sy'n tyfu'n dda yn eich ardal chi hefyd yn werthfawr i fywyd gwyllt a phlannwch mwy ohono i ymestyn yr amrywiaeth o gynefinoedd y gall bywyd gwyllt eu mwynhau.

Bydd angen i chi gael gwared ar rywogaethau diangen a allai fod yn cymryd lle planhigion buddiol a chofiwch gadw ardaloedd yn glir o sbwriel niweidiol.

## Rhwystrau mewn ardaloedd

Darparwch rwystr i fannau gwyllt sy'n bodoli eisoes yn ein trefi a'n cymunedau i'w gwarchod rhag cael eu sathru a lleihau'r pwysau ar fywyd gwyllt.

## Pethau annymunol yn bethau blasus!

Chwiliwch am gyfleoedd i greu safleoedd newydd yn ein trefi a'n cymunedau ac o'u cwmpas.

Mae mannau sydd wedi gordyfu a 'thir gwastraff' eisoes yn gallu bod yn werthfawr i fioamrywiaeth, yn enwedig rhywogaethau sy'n ffynnu ar briddoedd o ansawdd gwael.

Peidiwch â rhuthro i glirio neu 'dwtio' y darnau hyn. Gofynnwch i grwpiau lleol helpu i nodi'r rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n byw yno a gweld a oes camau gweithredu a allai eu helpu i wneud yn well.

Gall dysgu am y bywyd gwyllt ar garreg eu drws yn aml helpu trigolion i weld yr ardaloedd hyn mewn goleuni newydd.

# 05. Lledaenwch y neges

Canfu adroddiad Llesiant Cymru 2022 fod dros dri chwarter plant yn teimlo bod gan bawb ran i'w chwarae o ran diogelu'r amgylchedd. Gallwn annog mwy o weithredu a lleihau eco-bryder drwy ddangos bod camau gweithredu ar gyfer adfer natur yn digwydd.




Gall arwyddion cyfeillgar a llawn gwybodaeth ennyn diddordeb ymwelwyr a'u haddysgu am yr angen i adfer natur – a'r camau rydych chi'n eu cymryd.

## Gweithredu yn y gymuned

Anogwch grwpiau cymunedol i ddefnyddio praesept y cyngor i gydlynu gweithgareddau sy'n dod â phobl yn nes at natur fel teithiau cerdded gyda thywysydd neu sesiynau ffotograffiaeth bywyd gwyllt.

Anogwch weithgareddau gwyddoniaeth i ddinasyddion drwy ymgysylltu â'r Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth leol i gydlynu digwyddiadau cofnodi natur.

## Cryfder mewn niferoedd

Gwahoddwch ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol, grwpiau a thrigolion eraill sy'n canolbwyntio ar natur i helpu i wella adeiladau ac ardaloedd drwy syniadau neu weithgareddau. Ynghyd ag awgrymiadau creadigol, byddwch hefyd yn dod â llysgenhadon lleol i'ch helpu i hyrwyddo eich nodau ar gyfer natur.

Gall meinciau neu gamerâu bywyd gwyllt hefyd fod yn ffyrdd gwych o ddenu pobl - i ddysgu mwy a lledaenu'r neges ymhellach.

## Cronfa Natur

Beth am ystyried cael cynllun grantiau bach a fyddai ar gael i'r gymuned ar gyfer prosiectau natur – yn enwedig lle gall y rhain helpu i gwrdd â strategaethau neu flaenoriaethau'r Cyngor.

Gall fod yn anodd dod o hyd i gyllid a gall hyd yn oed symiau bach o arian helpu gyda syniadau cychwynnol.



Gwirfoddolwyr cymunedol Cyngor Tref Cwmaman yn creu cynefinoedd ar gyfer natur

Defnyddiwch yr arwyddion sydd ar gael – neu ewch ati i greu rhai eich hun i egluro pam eich bod yn gweithredu a sut y gall pobl eraill gymryd rhan.

Mae hyn yn helpu i addysgu ymwelwyr â phob ardal, a gall plant ac oedolion fel ei gilydd ddysgu am wahanol rywogaethau ar eu ffordd i'r ysgol ac i'r siop.

## Darllenwch amdano

Soniwch am eich cynnydd wrth y gymuned drwy gylchlythyrau lleol neu ohebiaeth arall. Dylech gynnwys lluniau o'r bobl, y planhigion a'r lleoedd sy'n elwa o'r gwelliannau.

Dywedwch wrth y preswylwyr beth rydych chi'n ei wneud a sut y gallant gymryd rhan. Os oes modd, gallwch ddarparu adnoddau ac arweiniad ar sut y gallwch luosi eich effaith.

## Rhannwch gyda'r gymuned





Rhannu gwybodaeth - ac offer - i helpu ymgyrchoedd a ddewiswyd. Er enghraifft, dosbarthu pecynnau gwesty i ddraenogod.

Dylech gynnwys calendr o ddigwyddiadau amgylcheddol ar eich gwefan ac ystyried rhoi cyhoeddusrwydd iddynt bob mis.

Mae eu cynnwys ar agendâu cyfarfodydd hefyd yn ffordd ddefnyddiol o atgoffa pobl amdanynt.

## Calendr natur



# Gall y 5 colofn helpu i lywio eich gweithredoedd

Rhan bwysig o'n rôl fel Cynghorwyr Cymuned a Thref yw cydnabod y 'Rhywogaethau a Warchodir a Rhywogaethau â Blaenoriaeth' sydd yn ein cymunedau a darparu cyfleoedd iddynt ffynnu. Gall y 5 colofn weithio:

## Gydag unrhyw rywogaeth... yn unrhyw le!



Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Y camau nesaf

Gellir defnyddio'r 5 colofn yn unrhyw le!











- ✓ Mynwentydd
- ✓ Safleoedd bws
- ✓ Neuaddau pentref / adeiladau cymunedol
- ✓ Toiledau
- ✓ Llwybrau troed a phalmentydd lleol
- ✓ Marchnadoedd
- ✓ Meysydd chwarae ac ardaloedd agored
- ✓ Rhandiroedd

Ac maen nhw'n ein helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol.

Mae gan bob un ohonom ddyletswydd gyfreithiol i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd.. Gellir cynnwys unrhyw gamau a gymerwn yn ein hadroddiadau bob 3 blynedd i ddangos ein bod yn cydymffurfio.



# Pwy arall all helpu?

Mae llawer ohonom yn gweithio gyda'n Partneriaethau Natur Lleol neu'n aelodau ohonynt. Gallwn eu cefnogi i gyflawni nodau a thargedau lleol o dan Gynllun Gweithredu Adfer Natur yr awdurdod lleol.

A thrwy weithio er lles natur a'n cymunedau, rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cewch ragor o wybodaeth a ffynonellau cyllid, cyngor a chefnogaeth gan:**

# Dydych chi ddim ar eich pen eich hun!

Wrth weithio gyda'n gilydd, gall Un Llais Cymru a'ch Cydlynydd Partneriaeth Natur Leol eich helpu i wreiddio'r '5 Colofn' yn eich ardaloedd fel rhan o'u gweledigaeth o "Gymru sy'n doreithiog o natur i bawb".

Gall Un Llais Cymru gefnogi pob Cyngor Cymuned a Thref gyda chyngor, adnoddau a hyfforddiant a'ch cyfeirio at y grantiau a'r cynlluniau cefnogi sydd ar gael yn eich ardal.

Lluniwyd yr adnodd hwn ar gyfer Un Llais Cymru gan Cynnal Cymru - Sustain Wales (Elusen Gofrestredig 1158496), elusen sy'n darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i gyflymu cynnydd tuag at gynaliadwyedd, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.